COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 31AIN O HYDREF 2022 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

1: PRESENNOL:-
Y Cynghorwyr Ceri Davies (Cadeirydd), Ian Evans, Rhian Evans, Philip Williams, Bari Evans, Geraint Jones, Arwel Davies, Cynghorydd Sir Ddinbych Elfed Williams ynghyd a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU:-
Dim.

3. DDATGAN DIDDORDEB:-
A: Cynghorydd Bari Evans ar eitemau 12A a 12B isod.
B. Cynghorydd Geraint Jones are item 12B isod.
C. Cynghorydd Sir Ddinbych ar yr holl geisiadau cynllunio yn eitemau 12 isod.

4. ETHOLAETH Y CYNGOR A'R BROSES O GYFETHOL.
A. Derbyniwyd un cais am gyfethol i'r Cyngor Cymuned Llanrhaeadr, sef Mrs Rhian Wyn Jones o Bwlch, Prion. Penderfynwyd yr aelodau i gyfethol Mrs Jones i lenwi'r un o'r tair sedd wag ar y Cyngor.
B. Mi fydd hysbysiad gyfethol i'r ddwy sedd wag sydd yn bodoli yn dal yn fyw hyd gyfarfod nesaf y Cyngor.

5. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.
Cadarnhawyd cofnodion 26ain o Fedi 2022 y Cyngor yn gywir.

6. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA.
A: Derbyniwyd adroddiad Mr Peter Lea, Brif Beirianydd - Rhoeolaeth Traffic Cyngor Sir Ddinbych ddim yn cytuno gyda'r sylwadau'r Cyngor Cymuned i estynni'r llinell felen dwbl rhwng Ysgol Bro Cinmeirch at y Lodge yn Llanrhaeadr gan fod yna ddigon o le i'r moduron ac yn y blaen pasio ei gilydd ar y safle. Cytunodd Y Cynghorydd Geraint Jones cael sgwrs gyda'r Swyddogion Ysgol Bro Cinmeirch ynglŷn ar sefyllfa cyn ystyried y cam nesaf.
B. Mae'r Cyngor Sir Ddinbych wedi glanhau'r gwlia'u ffyrdd wrth Yr King's Head yn Llanrhaeadr. Gofynni'r Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir Ddinbych estynni'r cwrb heibio'r King's Head i dal y dŵr ar y ffordd heibio'r adeilad.
C. Mae'r Adran Cynllunio Cyngor Dir Ddinbych yn dal i ddisgwyl cais cynllunio gyflawn i'r cyn Eglwys Prion yn Pant Pastynog.
D. Derbyniwyd cadarnhad fod yr "Speed Indication Devise" ar gael i'r Pentre' Llanrhaeadr yn y dyfodol agos.

7. PANEL WYBODAETH YN LLANRHAEADR.
Dim adroddiad wedi ei dderbyn i'r cyfarfod.

8. GWELYAU BLODAU YN Y GYMUNED.
Dim adroddiad wedi ei dderbyn i'r cyfarfod.

9. MATERION CYN SAFLE BRYN MORFYDD, LLANRHAEADR.
Derbyniwyd llythyr a chopi o'r amodau cais cynllunio oddi wrth Mr John Paul Williams, trwy law'r Cynghorydd Ian Evans ynglŷn ar gais cynllunio presennol yn sale Bryn Morfydd. Gan fod yna ambell amod wedi eu torri/anwybyddu yn barod, cytunodd y Cynghorydd Sir, Elfed Williams gofyn i'r Swyddog Cydymffurfio Cyngor Sir Ddinbych edrych i mewn i'r materion yr amodau.

10. UN LLAIS CYMRU - "ARWEINIAD AR BARATOI CYNLLUN HYFFORDDIANT CYNGOR GAN GYNNWYS TEMPLED AR GYFER CYNLLUN".
Am wybodaeth, derbyniwyd yr aelodau, trwy'r Clerc, manylion Un Llais Cymru "Arweiniad ar baratoi cynllun hyfforddiant Cyngor gan gynnwys templed ar gyfer cynllun".

11. MATERION CYLLID YN CYNNWYS TREFNIADAU'R MANDATE CYFRIF BANC Y CYNGOR.
A: Datganiad Banc £17,534.62.
B. Taliad Catrin Roberts am gostau'r "Pumpkin Trail" £45.00.
C. Penderfynwyd y Clerc paratoi "Mandate" newydd gyfrif banc y Cyngor i gynnwys y Cynghorwyr Ceri Davies, Bari Evans a Rhian Evans.

12. CEISIADAU CYNLLUNIO MISOL AM SYLWADAU'R CYNGOR.
A. CAIS CYNLLUNIO 23/2022/0344 - CODI 3 ANNEDD GAN GYNNWYS GOSOD GWAITH TRIN PECYN, FFURFIO MYNEDFA I GERBYDAU A GWAITH CYSYLLTIEDIG AR DIR YN LLWYN AFON, LLANRHAEADR.
1: Ar ddechrau'r cyfarfod croesawyd yr ymgeisydd y cais cynllunio i drafod y cais cynllunio gyda'r aelodau.
2. Nid oes gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r cais cynllunio ond i dynnu sylw nad oedd yna unrhyw adroddiad o "SUDS" gyda'r cais cynllunio.'
B. CAIS CYNLLUNIO 23/2021/0802 - DYMCHWEL ADEILADAU FFERM SEGUR BRESENNOL, CODI ADEILAD AR GYFER LLETY GWYLIAU, GOSOD GWAITH TRIN PECYN A GWAITH CYSYLLTIEDIG YN ADEILADAU ALLANOL GYFERBYN A TAN-Y-FRON, LLANRHAEADR (CAIS CYNLLUNIO GYDA MANYLION YCHWANEGOL).
Penderfynwyd ar y sylwadau canlynol i'r cais cynllunio:-
1: Pedwar polyn gyda tho yn unig yw'r adeilad amaethyddol presennol ar y safle.
2. Mi fydd yr adeilad newydd ddim ar un safle a'r adeilad presennol.
3. Mi fydd yr adeilad newydd ddim o'r un dyluniad ar breswyl eraill yn yr ardal.
4. Mi fydd y datblygiad yn cychwyn arwydd o dai newydd yn yr ardal.
5. Mae'r datblygiad yn erbyn polisi Cynllun Lleol Cyngor Sir Ddinbych.
C. CAIS CYNLLUNIO 23/2022/0907 - TORRI 1 GOEDEN ONNEN AC 1 GOEDEN SYCAMORWYDDEN O FEWN ARDAL CADWRAETH LLANRHAEADR YN ST. DYFNOG'S WELL WOODLAND, LLANRHAEADR - Dim gwrthwynebiad.

13. GOHEBIAETH.
A: Derbyniwyd e-bost oddi wrth Kenneth Williams ynglŷn ar gyflwr gwarthus y ffordd rhwng yr hen Llanrhaeadr a Phrion. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd at yr e-bost yn cefnogi Sylwadau Mr Williams.
B. Derbyniwyd e-bost oddi wrth Fiona Jones o'r Pwyllgor Cylch Llanrhaeadr yn gofyn am lythyr o gefnogaeth i'r mudiad am y bwriad o adeiladu "Caban Coed" i'r Cylch ar "Cynghrair yr Haf" Pêl-droed Llanrhaeadr. Penderfynwyd cefnogi'r mudiad.

14. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

A. Cytunodd y Cynghorydd Sir Ddinbych trefnu cyfarfod safle gyda swyddogion Cyngor Sir ynglŷn ar ganlynol:-

1. Cyflwr y pontydd wrth yr King's Head ar Gymro (gynt) yn Llanrhaeadr.
2. Ddatblygiad anghyfreithlon yn safle Cae'r Mynydd yn Saron.

B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd at y materion ffydd ganlynol sydd eisiau eu trwsio/wyneb newydd:-

1. Ffordd rhwng cyffordd Pen-y-Groes ac Ysgol Pant Pastynog.
2. Ffordd rhwng cyffordd Pen-y-Groes, Prion ar draws at ffordd Peniel (heibio Rhewl Valley).
3. Ffordd rhwng cyffordd Pen-y-Groes, Prion tuag at Brŷn Mulan.
4. Ffordd rhwng cyffordd Pen-y-Groes, Prion tuag at Gapel Prion.
5. Dwr yn cynilo ar y ffordd rhwng Pentre Farm a Llindir Bach yn Llanrhaeadr.

15. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gofyn am amserlen oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych am estynni'r arwydd 30 filltir yr awr rhwng Dolwar, Llanrhaeadr tuag at Glanaber, Llanrhaeadr.

16. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 28AIN O DACHWEDD 2022 AM 7.30 O'R GLOCH YN Y CABAN, YSGOL PANT PASTYNOG, PRION.